**LGH-10-02 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

**Dyddiad:** Dydd Mercher 12 Mehefin 2002

**Amser:** 2.00pm hyd 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:** **Aelodau**

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| Lisa James | Cyllid Llywodraeth Leol |
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| James Watkins | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Carol Kay | Cyfarwyddwr, TPAS - Cymru |
| Pam Every | Cadeirydd Pwyllgor Rheoli TPAS – Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Tom Middlehurst a'r Athro Dave Adamson. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

**Eitem 2: Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

William Graham: Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Ryder: Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad. Wrth wneud hynny, gwnaeth y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd wrth yr Aelodau ei bod wedi cytuno i adrodd yn ôl ar y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys ar ddarparu cyllid i'r cynllun Cymunedau yn Erbyn Cyffuriau. Dywedodd fod y trafodaethau yn dal i fynd rhagddynt ond y rhoddwyd sicrwydd i

Gymru y byddai'n derbyn £2.780m ar gyfer 2002-2003. Bydd Cymru hefyd yn derbyn cyllid i Wrthsefyll Terfysgaeth, a bydd y rhan fwyaf ohono yn cael ei neilltuo i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr aelodau gyda'r manylion penodol.

- Dywedodd ei bod yn disgwyl am yr adroddiad ar y prosiect Targedu Troseddau Stryd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol sydd ar waith yng Nghaerdydd ond dywedodd wrth yr Aelodau fod y Swyddfa Gartref wedi cytuno i barhau i gyllido'r prosiect hwn ar sail 3 mis ar y tro. Ychwanegodd ei bod yn bwriadu ysgrifennu at y Swyddfa Gartref i ofyn iddi barhau i gyllido'r prosiect. Gofynnodd i'r aelodau ystyried a oeddent yn dymuno cael cyflwyniad gan yr Arolygydd Tony Rees o Heddlu De Cymru ar y cynllun hwn. Cytunodd yr aelodau i hyn a gofynnwyd i'r Clerc drefnu hynny.
- Dywedodd wrth yr aelodau y byddai'n rhaid iddi ddeddfu o dan y Gorchymyn Nwyddau a Gwasanaethau mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol yn masnachu gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, oherwydd amryfusedd ar ran yr Adran Drafnidiaeth, Hamdden a'r Rhanbarthau. Cytunodd i roi adroddiad diweddaru ar hyn yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- Cyfeiriodd y Gweinidog at yr ohebiaeth ddiweddar yngln â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygiad) 2002 a wnaed o dan y Drefn Weithredol. Dywedodd ei bod yn synnu at ymwneud y Pwyllgor Deddfau â'r Gorchymyn hwn gan ei bod wedi rhoi gwybod i'r aelodau am ei bwriad yn ei hadroddiad ysgrifenedig diwethaf ac roedd hefyd wedi ysgrifennu at reolwyr busnes y pleidiau.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Croesawai'r aelodau y cyllid a oedd wedi ei dargedu at Gymru o dan y cynllun Gwrthsefyll Terfysgaeth ond gofynasant a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i ddarparu cyllid i borthladd Caergybi.
- Roedd yr aelodau'n pryderu o dderbyn adroddiadau am achosion lle'r oedd caniatâd cynllunio wedi ei wrthod i gartrefi preswyl, llochesau neu fathau eraill o lety i bobl sy'n agored i niwed a gofynnwyd i'r Gweinidog a wnâi hi ystyried comisiynu asesiad er mwyn cael gwir ddarlun o'r sefyllfa.
- Mynegwyd pryder yngln â'r rhaniad rhwng cyfalaf a refeniw wrth weinyddu Cronfa'r Gymuned yn Erbyn Cyffuriau.
- Nododd yr aelodau y ddeddfwriaeth arfaethedig ar y Gorchymyn Nwyddau a Gwasanaethau ond gofynasant beth oedd y sefyllfa os oedd yr awdurdodau lleol wedi gwneud unrhyw wariant.
- Trafododd yr aelodau Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredol) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygiad) 2002 a'r ffaith fod y Drefn Weithredol wedi'i defnyddio. Cytunasant mai hwn oedd y dull gweithredu cywir. Dywedodd y Cadeirydd, fel aelod o'r Pwyllgor Deddfau, y bu yna drafodaeth gyffredinol am y cynnydd a fu yn y defnydd a wneir o'r Drefn Weithredol ac na fynegodd unrhyw un fod y drefn honno wedi cael ei defnyddio'n anghywir ar gyfer y darn hwn o ddeddfwriaeth.

3.3 Rhoddodd y Gweinidog yr ymateb canlynol a chynigiodd gymryd y camau a ganlyn:

- Cytunodd y Gweinidog i holi a oedd Caergybi hefyd wedi cael ei hystyried am gyllid o dan y Cynllun Gwrthsefyll Terfysgaeth.
- Cytunodd y Gweinidog i gysylltu â'r Gweinidogion eraill ac ymgynghori â CLlLC a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru yngln â'r dystiolaeth fod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod i ganolfannau preswyl ar gyfer unrhyw grp sy'n agored i niwed.
- Cytunodd y Gweinidog i godi'r cwestiwn yngln â'r rhaniad cyfalaf/refeniw wrth weinyddu Cronfa'r Gymuned yn Erbyn Cyffuriau gyda'r Swyddfa Gartref.

**Eitem 4: Polisi Llywodraeth Leol – Ystyried yr ymatebion i'r papur Llywodraeth Leol "Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol" LGH-10-02 (p.1)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn a roddai wybod i'r Pwyllgor am ffrwyth yr ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ar y papur Llywodraeth Leol "Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol". Ceisiodd farn y Pwyllgor ar yr ymatebion i'r Datganiad Polisi.
2. Croesawai'r aelodau y papur ac roeddent yn cytuno ei fod yn adeiladol i lywodraeth leol. Codasant y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr aelodau'n pryderu yngln â'r terfyn oedran o 60 a oedd yn cael ei gynnig i gynghorwyr wrth eu gwaith a theimlent ei fod yn rhy ifanc. Teimlent fod angen rhaglen i ddenu pobl iau o bob rhan o gymdeithas i mewn i lywodraeth leol.
- Croesawid y symudiad tuag at bwyllgorau archwilio ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth am eu rôl.
- Trafodwyd y mater o adfer trethi busnes i reolaeth yr awdurdodau lleol. Roedd yr aelodau yn ymwybodol fod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gael ei weld fel corff sy'n bleidiol i fusnesau ond mynegwyd cydymdeimlad â safbwynt llywodraeth leol hefyd.
- Trafododd yr aelodau y safonau deuol o ran datgan buddiannau rhwng llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol a theimlid bod angen bwrw goleuni ar y sefyllfa. Gofynasant hefyd am i'r Cod Ymddygiad gael ei adolygu.

1. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am eu barn a dywedodd:

- Y byddai'n ailystyried yr oedran ymddeol arfaethedig ac roedd yn ymwybodol fod angen ymgyrch hyrwyddo i annog pobl newydd i mewn i lywodraeth leol.
- Cytunodd i roi adroddiad diweddaru i'r Pwyllgor cyn gwyliau'r haf ar ei thrafodaethau gyda chyrff archwilio yngln â threfniadau archwilio.
- Dywedodd fod mwyafrif yr awdurdodau lleol am i'r rheolaeth dros drethi busnes gael ei rhoi yn ôl iddynt hwy. Ychwanegodd fod hwn yn faes cymhleth a bod angen ei ystyried yn fanwl.
- Cytunodd i gyflwyno papur ar fater datgan buddiannau ac ar adolygu'r Cod Ymddygiad.

**Eitem 5: Adroddiad y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol LGH-10-02(p.2)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn gan ddweud ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed hyd yn hyn gan y Gweithgor Diogelwch Tân Cymunedol ac am weithredu'r argymhellion a amlinellwyd yn "Wired for Safety". Atgoffodd yr aelodau fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r adroddiad "Wired for Safety" yn Nhachwedd 2001.
2. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r aelodau yr adroddiad cadarnhaol.
- Teimlai'r aelodau fod rhan helaethaf yr adroddiad yn delio â goblygiadau tai cymdeithasol ac awgrymasant y dylai gosod systemau taenellu dr gael ei gynnwys ym mhob eiddo newydd, boed gyhoeddus neu breifat. Awgrymwyd hefyd y dylid ei gwneud yn ofynnol i bob t aml-ddeiliadaeth a neuadd breswyl gael eu cynnwys yn y rhaglen i osod y system hon.
- Gofynnodd yr aelodau am eglurhad yngln â'r materion technegol sy'n ymwneud â chyflenwi dr ar gyfer taenellwyr domestig.

1. Ymatebodd y Gweinidog fel hyn:

- Cytunodd i ddarparu papur ar yr Ymddiriedolaeth Gymunedol Diogelwch Tân.
- Cytunai â'r farn y dylai pob eiddo newydd gael ei godi gyda systemau taenellu dr wedi'u hymgorffori ynddo a byddai'n cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid cynnwys mesurau diogelwch rhag tân o fewn y rheoliadau adeiladu.
- Cytunodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn darparu papur ar y materion technegol sy'n effeithio ar y pwysedd dr ar gyfer systemau taenellu.

**Eitem 6: Effeithlonrwydd ynni cartref mewn ardaloedd gwledig LGH-10-02 (p.3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn gan ychwanegu i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref fod yn llwyddiannus iawn yng Nghymru ac iddo ddod â budd i lawer o bobl hyd yma. Ychwanegodd fod rhagor o ymchwil wedi'i chomisiynu a'i bod yn bwriadu diwygio'r rheoliadau perthnasol yn nhymor yr hydref.
2. Yn ystod y drafodaeth, cytunodd yr aelodau i'r cynllun fod yn llwyddiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisiwyd yr angen i gymell defnyddio ynni adnewyddadwy ynghyd â defnyddio Nwy Petrolewm Hylifedig sy'n glên i'r amgylchedd.
3. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y byddai'n cymryd y sylwadau i gyd i ystyriaeth wrth benderfynu sut i weithredu yn y dyfodol.

**Eitem 7: Cyflwyniad gan y Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) - Cymru**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd Carol Kay, Cyfarwyddwr TPAS - Cymru a Pam Every, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli TPAS - Cymru a gwahoddodd nhw i wneud eu cyflwyniad.
2. Prif bwyntiau'r cyflwyniad oedd:

- Mae TPAS Cymru yn cynrychioli amrywiaeth eang o aelodau, yn denantiaid a landlordiaid cymdeithasol, ledled Cymru ynghyd â nifer o Gyrff Tai Cenedlaethol i Gymru Gyfan a fu â rhan yn y gwaith o baratoi, ac ystyried, yr argymhellion yn adolygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru o TPAS.
- Corff sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo Cyfranogiad Tenantiaid ac i ddarparu'r cyngor, y wybodaeth a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i hybu cyfranogiad effeithiol gan denantiaid a landlordiaid yw TPAS.
- Mae'r byd tai yn newid yn gyflym. Mae i'r newidiadau oblygiadau o ran cyfranogiad tenantiaid ac o ran TPAS Cymru fel yr unig gorff i Gymru gyfan sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae TPAS wedi cynnal adolygiad mewnol o'i rôl i'r dyfodol ac mae'n falch i adolygiad annibynnol y Cynulliad ddod i'r un casgliadau yngln â'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt.
- Ennyn cynifer â phosibl o denantiaid i gyfranogi a chynnig cyfleoedd iddynt i gyfrannu at y gwaith o reoli eu cartrefi, ar lefel sy'n addas iddynt hwy, yw hanfod cyfranogiad tenantiaid, sy'n ganolog i'r Strategaeth Dai Genedlaethol.
- Ac edrych i'r dyfodol, mae yna lawer o faterion a pholisïau lle byddai'n dda o beth cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru – yn arbennig, y Model Cymunedol Cydfuddiannol o Drosglwyddo Stoc y mae'r Cynulliad yn ei hyrwyddo. Mae TPAS o'r farn fod y model hwn yn cynnig cyfleoedd cyffrous i roi grym i denantiaid ac i adfywio cymunedau yn effeithiol, ac y gall TPAS wneud cyfraniad pwysig i'r broses.
- Yn sgîl y gwaith sydd eisoes ar y gweill ac mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad, mae TPAS yn bwriadu cynnal tri adolygiad mawr a hynny o'u – system rheolaeth ariannol, y strwythur staffio a'r gwasanaethau i aelodau. Mae'r adolygiadau hyn yn golygu gwariant anarferol sylweddol ac, yn ei ymateb ysgrifenedig, mae TPAS yn gofyn am gyllid ychwanegol i benodi ymgynghorwyr i ymgymryd â'r adolygiadau pwysig hyn.
- I gloi, nodwyd bod angen cyllid craidd parhaus ar TPAS Cymru. Tenantiaid gan mwyaf yw'r grp cleientiaid ac nid ydynt yn gallu cael gafael yn rhwydd ar gyllid i brynu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

1. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oeddent yn barod i drafod y cyflwyniad a'r papurau o dan Eitem 8 gyda'i gilydd. Cytunodd yr aelodau i hynny a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch iawn o gael y cyflwyniad gan TPAS Cymru a'i fod yn atgyfnerthu'r rôl werthfawr sydd gan Lywodraeth y Cynulliad gyda'r corff. Ychwanegodd fod y cyllid a roddir i'r corff i gael ei ailystyried ym Mawrth 2004.
- Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig datblygu'r gallu ymysg cyrff tenantiaid i roi'r Model Cymunedol Cydfuddiannol ar waith, os mai dyna'r ffordd ymlaen gyda thai cymdeithasol.
- Cydnabuwyd y byddai gwaith TPAS yn y dyfodol yn wahanol i'r gwaith a wnaed ganddo yn y gorffennol ac y bydd yna alwadau newydd ar ei adnoddau, yn adnoddau staff ac adnoddau ariannol fel ei gilydd. Gofynnwyd i TPAS am ei sylwadau ar ba mor ddigonol yw'r cyllid a geir ar hyn o bryd.
- Gofynnwyd hefyd i TPAS ymhelaethu ar y "siopwr dirgel" a sut y mae'n gweld ei rôl gyda'r Awdurdodau Lleol i'r dyfodol.

1. Dywedodd Carol Kay:

- Y bydd TPAS yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r goblygiadau posibl iddo o ran adnoddau yn sgîl datblygiadau newydd megis dyfodiad cyrff tai 'Cymunedol Cydfuddiannol'.
- Mae'r cynllun "siopwr dirgel", sydd wedi'i gyllido gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn caniatáu i denantiaid ymgymryd â hyfforddiant perthnasol ac yna ymweld â swyddfeydd landlordiaid er mwyn canfod pa lefel o wasanaeth a roddir. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn arf grymus i ddangos beth sy'n digwydd ar lawr gwlad.
- Mae gan TPAS Cymru gysylltiadau cryf iawn sydd wedi ennill eu plwyf gydag awdurdodau lleol, a gwnaeth TPAS lawer iawn o waith paratoadol yn hynny o beth. Fwyfwy, mae TPAS wedi annog landlordiaid cymdeithasol i benodi swyddogion cyfranogiad tenantiaid. Mae TPAS hefyd wedi cyfrannu at y gwaith o baratoi Strategaethau Cyfranogiad Tenantiaid landlordiaid cymdeithasol. Mae hefyd yn gallu cynnig gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg yng Ngogledd Cymru.

7.5 Diolchodd y Cadeirydd i Carol Kay a Pam Every am eu cyflwyniad a dymunodd yn dda iddynt yn eu gwaith i'r dyfodol.

**Eitem 8: Adolygiad o'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid -**

**ystyried adroddiad LGH-10-02(p.4)**

8.1 Cafodd yr eitem hon ei hystyried gydag eitem 7.

**Eitem 9: Adolygiad polisi ar adfywio cymunedol – ystyried yr adroddiad**

**drafft LGH-10-02(p.5)**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau ar yr adroddiad drafft ar adolygiad polisi'r Pwyllgor o adfywio cymunedol.
2. Roedd yr aelodau'n cytuno bod y drafft yn sylfaen ar gyfer adroddiad rhagorol.
3. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cymeradwyaeth a dywedodd y câi'r adroddiad terfynol ei baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin.

**Eitem 10:Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai LGH-09-02 (min)**

10.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**

**Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:**

1.Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg nodyn i'r aelodau am y cyllid ar gyfer Cymru o dan y prosiect Gwrthsefyll Terfysgaeth ac i wneud ymholiadau yngln â chyllid ar gyfer porthladd Caergybi.

2. Y Gweinidog i gynnwys cyfeiriad yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf at y Gorchymyn Nwyddau a Gwasanaethau mewn perthynas ag Awdurdodau Lleol yn masnachu gyda'r Cynulliad.

3. Y Gweinidog i bwyso ar y Swyddfa Gartref i barhau i gyllido prosiect TASC yn 2002-03.

4. Y Gweinidog i gysylltu â'r Gweinidogion eraill ac ymgynghori â CLlLC a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru yngln â'r dystiolaeth fod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod i lety preswyl ar gyfer pobl sy'n agored i niwed.

5. Y Gweinidog i godi'r cwestiwn yngln â'r rhaniad cyfalaf/refeniw wrth weinyddu Cronfa'r Gymuned yn Erbyn Cyffuriau gyda'r Swyddfa Gartref.

6. Cytunodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar y Cod Ymddygiad yn nhymor yr hydref, ar ôl yr ymgynghori yngln â'r fframwaith moesegol newydd.

7. Y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor cyn gwyliau'r haf am ei thrafodaethau gyda chyrff archwilio yngln â threfniadau archwilio.

8. Y Gweinidog i ddarparu papur ar yr Ymddiriedolaeth Gymunedol Diogelwch Tân.

9. Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU o blaid cynnwys mesurau diogelwch rhag tân o fewn y Rheoliadau Adeiladu.

10. Y swyddogion i ddarparu papur ar y materion technegol perthnasol yn ymwneud â chyflenwi dr ar gyfer taenellwyr domestig.

11. Y Clerc i drefnu cyflwyniad gan yr Arolygydd Tony Rees ar y prosiect Targedu Troseddau Stryd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol a'r gwerthusiad sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Mike McGuire.

12. Y Gweinidog i gynnwys y Pwyllgor yn yr adolygiad arfaethedig o bolisïau, rhaglenni a chyllid Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt cyfranogiad / grymuso tenantiaid.

13. Yr adolygiad perfformiad o TPAS-Cymru i gael ei gynnwys ar yr agenda pan fydd wedi ei gwblhau (Mawrth 2003).